# Yr Etholiad Safonau Byw

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Anwen Jones (anwen.jones@citizensadvice.org.uk)*

Safonau byw fydd y mater fydd yn diffinio'r etholiad Senedd hwn. Ar hyn o bryd, mae gormod o bobl yng Nghymru yn gwario pob ceiniog ar oroesi, nid ar fwynhau eu bywydau. Mae pobl eisiau gweithio, talu eu biliau a gofalu am eu teuluoedd, ond mae hyn bellach yn anoddach nag y mae wedi bod ers degawdau.

Mae degau o filoedd o bobl yng Nghymru yn lle hynny yn poeni'n barhaus am dalu rhent, talu biliau a rhoi bwyd ar y bwrdd.

- Mae 31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi cymharol (ar ôl costau tai). Mae cyfraddau tlodi plant yng Nghymru ymhlith yr uchaf o unrhyw wlad yn y DU[1]
- Mae **190,000 o bobl** yng Nghymru wedi'u dal yn y coch – mewn 'cyllideb negyddol' – waeth beth maen nhw'n ei wneud, neu faint bynnag o oriau y maen nhw'n gweithio.[2]
- Mae cyfanswm dyled ar gyfartaledd ymhlith ein cleientiaid dyled wedi cynyddu **31%** dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi o £6,475 yn 2021 i **£8,454** yn 2025.
- Mae **dyledion ynni cyfartalog** ymhlith ein cleientiaid sydd â dyledion wedi cynyddu **79%** ers dechrau'r argyfwng ynni yn 2021.
- Rhwng 2021 a 2025, cynyddodd nifer y bobl y bu i ni eu helpu gyda **chymorth elusennol a banciau bwyd 61%** (o 12,027 i 19,323)
- Rydym yn parhau i helpu mwy o bobl sy'n **wynebu neu'n profi digartrefedd**, i fyny **69%** rhwng 2021 a 2025 (o 2,613 i 3,784)
- O Fai 2026 ymlaen, Cymru fydd yr **unig wlad ym Mhrydain Fawr sydd ddim wedi gwahardd troi allan heb fai.**
- Dros 2024-25, darparodd ein gwasanaethau cynghori ledled Cymru arbedion amcangyfrifedig o **£376 miliwn** i'n cleientiaid drwy ddileu dyledion, ennill budd-daliadau neu ddatrys problemau defnyddwyr.[3]

## Llesiant ariannol ac iechyd

Mae llesiant ariannol yn un o'r elfennau sylfaenol ar gyfer iechyd da[4]. Mae poeni'n barhaus am dalu biliau ac am fwydo a dilladu eich hun a'ch teulu yn straen ar iechyd corfforol a meddyliol pobl. Gall hyn ei gwneud yn anoddach i reoli agweddau eraill ar

[1] 'Strategaeth Tlodi Plant Cymru: Adroddiad Cynnydd 2025, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2025
[2] Dadansoddiad diweddar fel rhan o'n 'Mynegai Coch Cenedlaethol 2025', Cyngor ar Bopeth, Hydref 2025
[3] 'Cyngor dibynadwy mewn cyfnodau o newid: Adroddiad Effaith Cyngor ar Bopeth Cymru 2024-25'
[4] 'Gweithio gyda'n gilydd am Gymru iachach: Pump blaenoriaeth bolisi', Iechyd Cyhoeddus Cymru

eich bywyd gan gynnwys symud ymlaen yn y gwaith, perthnasoedd a llwyddo yn yr ysgol.

Mae pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor hefyd yn aml yn wynebu costau byw sy'n anghymesurol uwch. Mae llawer o'r miloedd o bobl sy'n ceisio ein cymorth gyda dyledion biliau cartref ac ar gyfer cefnogaeth mewn argyfwng yn adrodd bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir. Mae pobl yn y sefyllfa hon yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael gwaith o ansawdd da, gyda chyflog digonol a chyfleoedd addysg neu hyfforddiant, sy'n ei gwneud hyd yn oed yn anoddach iddynt wella eu llesiant ariannol.

## Beth sydd angen newid?

Mae maniffesto Cyngor ar Bopeth Cymru yn nodi nifer o brif alwadau sy'n canolbwyntio ar gynyddu incwm a lleihau costau hanfodol cartrefi.

Rydym yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

**Buddsoddi yn system fudd-daliadau Cymru fel ei bod yn darparu'r cymorth cywir pan fydd pobl ei angen**

↓

Cynyddu digonolrwydd y system cymorth budd-daliadau yng Nghymru drwy:

- gyflwyno Taliad Plant Cymru
- sicrhau bod 'budd-daliadau Cymreig' yn cael eu cynyddu'n rheolaidd yn unol â chwyddiant, a
- gwarchod y Gronfa Cymorth Dewisol, tra hefyd yn ymgorffori dull mwy ataliol yn ei chynllun.

**Mynd i'r afael â chost hanfodolion sy'n codi'n hynod gyflym, yn enwedig biliau ynni a rhent**

↓

Gwneud cartrefi Cymru yn fwy fforddiadwy, diogel a chynnes drwy wneud y canlynol:

- cyflymu'r broses o uwchraddio cartrefi sydd heb eu hinswleiddio'n dda er mwyn cynyddu gwydnwch yn erbyn prisiau uchel ynni
- archwilio opsiynau a fyddai'n cyfyngu ar godiadau rhent yn y sector preifat, a
- gwahardd troi allan heb fai yn llwyr.

**Ariannu gwasanaethau cyngor ariannol er mwyn ateb y galw cynyddol amdanynt**

↓

Sicrhau bod pawb yn cael mynediad at gyngor rhad ac am ddim, annibynnol ac o safon uchel drwy:

- gefnogi a chynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori yng ngoleuni'r galw cynyddol
- cydnabod gwerth a rôl cyngor o ran lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl, ac atgyfnerthu incwm cartrefi.